Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 9BS
***Ffôn:* 02920 490582**
***E-bost:* aluntudur@btinternet.com**

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel, Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UE
***Ffôn:* 01766 513138**
***E-bost:* IwanLlew@aol.com**

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
***Ffôn:* 01267 232577 / 0781 751 9039**
***E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk**

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe ABERTAWE SA7 0AJ
***Ffôn:* 01792 795888**
***E-bost:* undeb@annibynwyr.org**

Dalier Sylw!
Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

Y Beibl a Chyfiawnder - *parhad*

Robin Samuel

anghenus, 'Mae'r Arglwydd wedi dweud beth sy'n dda, a beth mae e eisiau gen ti: Hybu cyfiawnder, bod yn hael bob amser, a byw'n wylaidd ac yn ufudd i dy Dduw.' (Micha 6.8). 'Beth dw i eisiau ydi gweld cyfiawnder fel dŵr yn gorlifo, a thegwch fel ffrwd nant sydd byth yn sychu.' (Amos 5.24). 'Dylech chithau hefyd ddangos cariad at fewnfudwyr.'

'Rhowch i'r.....mewnfudwyr, y plant amddifad a'r gweddwon sy'n byw yn eich pentrefi chi, er mwyn iddyn nhw gael digon i'w fwyta.' (Deut 26:12).

Gwaredwr Cyfiawn

O droi at y Testament Newydd gwelir yr un pwyslais yno. Yn ôl proffwydoliaeth Eseia, Iesu yw'r un fydd yn 'teyrnasu'n gyfiawn ac yn deg, o hyn allan, ac am byth'. (Eseia 9:7). Yn ei bregeth cyntaf yn Synagog Nasareth mae Iesu'n cyflwyno ei fwriad yn eglur, 'Mae Ysbryd yr Arglwydd arna'i, oherwydd mae wedi fy eneinio i, i gyhoeddi newydd da i bobl dlawd. Mae wedi fy anfon i gyhoeddi fod y rhai sy'n gaeth i gael rhyddid, a phobl sy'n ddall i gael eu golwg yn ôl, a'r rhai sy'n cael eu cam-drin i ddianc o afael y gormeswr, a dweud hefyd fod y flwyddyn i'r Arglwydd ddangos ei ffafr wedi dod.'(Luc 4:18-19). Yr anghenus, y bregus, y rhai sydd wedi eu gwthio i ymylon cymdeithas, yw'r bobl y mae Iesu yn treulio amser gyda nhw. Dyma'r bobl y mae'n rhoi blaenoriaeth iddynt yn ystod ei weinidogaeth gan sicrhau cyfiawnder iddynt, ac mae'n disgwyl i'w ddilynwyr ymddwyn yn gyfiawn tuag atynt hefyd.

Dynoliaeth Gyfiawn

Felly gallwn ddweud bod ein hymddygiad cyfiawn ni yn codi o'r ffaith fod Duw ac Iesu'n gyfiawn. Dylai hynny ynddo'i hun fod yn ddigon i'n llenwi gydag angerdd i weithredu cyfiawnder. Ond mae'n mynd yn ddyfnach na hynny hefyd. Credwn fod perthynas yn rhan o natur Duw - Tad, Mab ac Ysbryd Glan. Yn storïau'r creu mae Duw yn dweud, 'Gadewch i ni wneud pobl yn ddelw ohonom ni'n hunain, yn debyg i ni' (1.26). H.y. mae perthynas Duw â ni wedi ei seilio ar berthynas Duw ei hunan, a dyma hefyd yw sail ein perthynas ni a'n gilydd. Rym ni'n rhan o ddynoliaeth a grëwyd ar ddelw Duw ac sy'n debyg iddo. Nid jyst theori ddiwinyddol yw hyn, y mae iddo oblygiadau ymarferol. Oherwydd os wyt ti wedi dy wneud yn debyg i Dduw, a finnau'r un modd, yna o reidrwydd mae perthynas arbennig rhyngot ti a fi. Perthynas sy'n golygu hawliau a chyfrifoldebau, *hawliau dynol* fel rym ni'n eu galw nhw.

e.e. am ein bod ni'n dau yn rhannu delw Duw, mae gen i'r cyfrifoldeb i ymddwyn yn gyfiawn tuag atat, ac i beidio dy gam-drin di ar sail dy hil, rhywedd, oedran, cefndir, crefydd, iaith, syniadau ayb. Ar yr un pryd mae gen ti'r hawl i ddisgwyl y math yma o ymddygiad gen i.

Ar lun a delw Duw

Mae ein dealltwriaeth ni o Dduw, fel un sydd yn ei hanfod yn batrwm o berthynas ac sydd mewn perthynas arbennig â phobl, yn hawlio ein bod yn adlewyrchu'r berthynas gyfiawn honno yn ein hymwneud â'n gilydd. Neu yng ngeiriau'r Beibl, rym i garu Duw a charu ein cymydog fel ni ein hunain. Gwelir hyn hefyd yn y Testament Newydd. Yn y ddameg adnabyddus am y farn olaf ym Mathew 25, dywed Iesu fod ei berthynas ef a'r gwan, y bregus a'r gwrthodedig yn golygu ei fod e'n uniaethu ei hun yn llwyr gyda nhw.

'Chi roddodd fwyd i mi pan oeddwn yn llwgu; chi roddodd ddiod i mi pan oedd syched arna'i; chi rhoddodd groeso i mi pan oeddwn i ddim yn nabod neb; chi roddodd ddillad i mi pan oeddwn i'n noeth; chi ofalodd amdana i pan oeddwn i'n sâl; chi ddaeth i ymweld â mi pan oeddwn i yn y carchar....credwch fi, pan wnaethoch chi helpu'r person lleiaf pwysig sy'n perthyn i mi, gwnaethoch chi fy helpu i.' (Mathew 25. 35, 40).

Rym ni fod i weld Duw ac Iesu mewn eraill. A phan fyddwn ni'n gweld Duw ac Iesu mewn eraill, fe fyddwn ni'n gweld ein hunain ynddyn nhw hefyd. Gallwn ni byth a pheidio cael ein cyffwrdd gan anghyfiawnder i arall, achos mae'n rhywbeth sy'n ein heffeithio ni ac yn ein lleihau ni. I aralleirio geiriau adnabyddus y bardd-bregethwr Saesneg, John Donne, 'Any person's injustice (man's death) diminishes me for I am involved in mankind.'

Mae yna undod a chydymddibyniad dynol, ac fe ddylai hynny'n ein gyrru i ymddwyn yn gyfiawn tuag at eraill, i weithredu i sicrhau tegwch ac unioni cam, a galluogi ein chwiorydd a'n brodyr i fyw bywyd llawn ac urddasol.

Robin Samuel



Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Wasg Morgannwg, 27 Ystad Ddiwyd. Mynachlog Nedd, Castell-nedd, SA10 7DR. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.

PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 149 | Rhif 38 | Medi 15, 2016 | 50c.

Eglwys Seion, Aberystwyth

Barbeciw

Ar brynhawn Sadwrn, 2 Gorffennaf cawsom fwynhau barbeciw ar wahoddiad aelodau'r Ysgol Sul. Cawsom wledd flasus wedi ei pharatoi gan Arwel, Mererid ac Eiry. Diolchwn yn fawr iawn iddynt ac i'r rhai bu'n cynorthwyo ac yn cefnogi. Cafodd y plant amser wrth eu bodd yn y gemau amrywiol o dan arweiniad Rosemary ac Andrew. Roedd yr awyrgylch yn drydanol.

Cafodd pawb oedd yn bresennol gyfle i guddio map o Lesotho â rhoddion ariannol i gynorthwyo'r miloedd ar filoedd yn y wlad sy'n wynebu newyn a thlodi o ganlyniad i'r sychder mawr sydd yno.

Oedfa Deuluol

Ar fore Sul yn dilyn y barbeciw cawsom Oedfa Deuluol gyda'r plant a'r ieuenctid ar eu gorau yn ein cynorthwyo i addoli. Cawsom gyflwyniad gwahanol o Stori'r Ffŵl Cyfoethog cyn i'r gweinidog rannu neges gan dynnu ein sylw at eiriau Martin Luther, **"Nid yw neb yn gwir gredu onid yw ei ffydd yn esgor ar weithredoedd cariad".**

Cawsom goffi a chacennau yn y festri yn dilyn yr oedfa a bu'n rhaid cael ail fap o Lesotho i dderbyn ein rhoddion i'r apêl. Diolch i bawb a gyfrannodd yn hael. Cyfanswm y derbyniadau i Apêl Lesotho yw £605. Diolch i'r plant a'r ieuenctid am ein hysgogi i ymateb i Apêl Lesotho.

Oedfa Gofiadwy Arall

Roedd yr Oedfa Gymun ar fore Sul, 31 Gorffennaf o dan arweiniad y gweinidog. Gwahoddodd y Parchedig Irfon Evans, sy'n un o'n haelodau ffyddlon, i'r pulpud i bregethu'r Gair. Cafodd ei ordeinio yn weinidog i'r Arglwydd Iesu Grist yn eglwys Capel Isaac ym 1952 ac mae wedi pregethu'r efengyl yn ffyddlon ac yn ddidwyll ar hyd y blynyddoedd. Nid yw'n dymuno derbyn cyhoeddiadau mwyach ac yntau yn 90 oed.

Cawsom bregeth rymus ganddo o dan eneiniad yr Ysbryd Glân yn seiliedig ar Salm 8. Tywysodd ni i ymwybyddiaeth o ryfeddod mawredd Duw a'i ras tuag at ddynion a merched yn yr Arglwydd Iesu Grist.

Wrth ddiolch i'r Parchedig Irfon Evans am ei neges ac wrth ddymuno bendith y nef arno i'r dyfodol cyflwynodd y gweinidog gyfrol iddo o fyfyrdodau o weithiau John Newton.

Andrew Lenny
(Allan o Nodion Seion Medi 2016)

Y Beibl a Chyfiawnder

Ar ddydd Gwener yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Fenni eleni y Parchg Robin Samuel oedd yn gyfrifol am y sesiwn ar y Beibl. Dyma'r gyntaf o ddwy erthygl sydd yn crynhoi ei sylwadau.

Os trowch chi at eiriadur am ystyr 'cyfiawnder', bron yn ddieithriad fe fydd yna elfen gyfreithiol glir iddo. Meddai Geiriadur newydd Gomer e.e. 'tegwch cyfreithiol rhwng dyn a'i gyd-ddyn.' Digon tebyg yw diffiniad Wikipedia, 'gweithredu'r gyfraith' neu 'y broses gyfreithiol sy'n gweinyddu tegwch.'

Mae'r Beibl hefyd yn cysylltu cyfiawnder a'r gyfraith, ond o fewn y Beibl mae llawer mwy i gyfiawnder na gweithredu 'trefn briodol y gyfraith' (due process of law). Rhywbeth i'w ddeall yn nhermau perthynas neu gydberthynas yw cyfiawnder, y modd rym ni'n ymddwyn tuag at ein gilydd, ac i'r Beibl, Duw ei hun yw'r model ar gyfer ymddygiad cyfiawn.

Duw Cyfiawn

Yng Nghân Moses (Deuteronomium 32), dywedir hyn am Dduw – 'Mae e fel craig, a'i waith yn berffaith; mae bob amser yn gwneud beth sy'n iawn. Bob amser yn deg ac yn onest – yn Dduw ffyddlon sydd byth yn anghyfiawn.' (ad 4). Beth sy'n amlwg hefyd o'r Beibl yw bod cyfiawnder Duw yn dangos ei hunan yn y modd mae'n amddiffyn, ac yn gofalu am, y rhai hynny o fewn cymdeithas sy'n wan ac yn fregus – y weddw, yr amddifad, y dieithryn a'r estron. 'Tad yr amddifaid ac amddiffynnydd y gweddwon,' yw Duw. (Salm 68:5). 'Un sy'n rhoi cyfiawnder i'r amddifad a'r sawl sy'n cael ei sathru.' (Salm 10:18). 'Mae'n gwneud yn siŵr fod plant amddifad a gweddwon yn cael cyfiawnder. Mae'n caru'r mewnfudwyr ac yn rhoi bwyd a dillad iddyn nhw.' (Deut. 10:18).

Pobl Gyfiawn

Am mai dyma natur Duw, does dim syndod fod llyfrau'r proffwydi a'r Salmau yn llawn o alwadau ar bobl Dduw i ymddwyn yn gyfiawn, ac yn arbennig tuag at bobl fregus ac

parhad ar y dudalen gefn

Dafydd a Bathsheba

Yn ystod cyfarfodydd blynyddol Undeb yr Annibynwyr fe arweiniwyd yr Astudiaethau Beiblaidd gan y Parchg Kenneth Linter ac fe gafwyd gwledd wrth iddo agor y gair. Dyma ail ran y crynodeb o'i astudiaeth ar Dafydd a Bathsheba. Bydd y drydedd ran yn y rhifyn nesaf o'r Tyst.

Mae Dafydd yn rhoi cynnig arall arni: rhoi pryd o fwyd i Ureia a'i feddwi. Ond nid yw hynny hyd yn oed yn tanseilio ei egwyddorion. "Ond (gwell na "pan") aeth allan gyda'r nos, a gorwedd ar ei wely gyda gweision ei feistr." Dyna'r methiant i Ddafydd sy'n arwain at ei gynllun olaf a'i bechod mwyaf: llofruddio ei was ffyddlon – nid ei hunan, wrth gwrs, ond yn llechwraidd, ag arfau'r gelyn ar faes y gad.

Lofruddiaeth

Mae'n anfon llythyr at Joab yn llaw Ureia! Oherwydd ei egwyddorion, mae Ureia yn cludo ei warant farwolaeth ei hun. Gyda llaw, dyma'r tro cyntaf yn y Beibl i ni gael cynnwys llythyr. Ac mae Joab yn ufuddhau: "I was only obeying orders!" Llofruddiaeth sydd yma – nid ystyrid y lladd arferol mewn rhyfel felly! Mae Joab yn ymuno yn y twyll trwy'r neges yn ôl at Ddafydd, yn ffugio dyfalu beth fydd Dafydd yn ei ddweud, yn "gwylltio" (Beibl.net) am fod y milwyr wedi mentro mor agos at y mur nes bod y "bwasaethwyr" (Beibl.net) yn saethu atynt oddi ar y mur. A Dafydd yn ffugio ymdawelu a gorchymyn mynd yn ôl a chodi calon Joab trwy ddweud mai fel yna y mae hi weithiau mewn brwydr.

Galar

Mae Bathseba yn galaru am ei phriod: ni ddywedir a wyddai hi beth yr oedd Dafydd wedi ei wneud iddo. Cymerwn fod ei galar yn ddidwyll, fel ei diolchgarwch fod Dafydd wedi ei phriodi ymhell cyn bod y plentyn yn cael ei eni, a phawb yn meddwl mor dosturiol oedd y brenin. Ac ni allwn ddweud nad oeddent yn caru ei gilydd. Felly diweddglo hapus, wedi'r cyfan, ac ochenaid o ryddhad! "Ond yr oedd yr hyn a wnaeth Dafydd yn ddrwg yng ngolwg Yahweh." Torrodd Dafydd dri o'r Deg Gorchymyn: trwy chwennych gwraig ei gymydog, godinebu gyda hi, a lladd y gŵr. Ond yr oedd Nathan y proffwyd yn gwybod beth ddigwyddodd, a'r canlyniad yn dangos awdurdod y proffwyd yn y llys. Ac y mae Nathan yn adrodd dameg wrth Ddafydd. Nid yw yn alegori, ac eto mae nodau awgrymog yn cael eu taro: stori am oenig (Bathseba) wrth y dyn a fu'n fugail y praidd, ac efallai fod "fel merch iddo" ar ei aelwyd yn awgrymu mai meibion (yn llythrennol) oedd ei blant. Mae Dafydd yn cymryd y stori yn llythrennol, ac yma y mae ochr orau Dafydd yn dod i'r wyneb. Mae'n ennyn ei ddigofaint a'i synnwyr cyfiawnder: y barnwr o frenin yn y llys.

Digofaint

"Mae'r dyn a wnaeth hyn yn haeddu marw." Enghraifft glasurol o weld pechodau pobl eraill! Mae'r ddameg â gwrthgyferbyniad wrth ei gwraidd: y dyn cyfoethog a'r dyn tlawd. Ond y ddedfryd am yr hyn a wnaeth y dyn yn y ddameg, wrth gwrs, yw'r hyn a ddywed Dafydd nesaf: "Rhaid talu'n ôl bedair gwaith." Dyna'r gyfraith: "Os yw dyn yn lladrata ych neu ddafad ac yn ei ladd neu yn ei werthu, y mae i dalu'n ôl bum ych am ych, a phedair dafad am ddafad" (Exodus 22.1). Ac nid yw'r ffaith fod Duw yn maddau i ni ac yn cuddio ein pechodau yng Nghrist yn ein hesgusodi ni rhag ceisio gwneud iawn ac adfer perthynas. "Am beidio â dangos trugaredd" – na thosturi. Beibl.net: "am fod mor ddideimlad."

Hau a Medi

"Ti yw'r dyn": stori wneud i dynnu Dafydd allan! Ac yna mae Nathan yn ymhelaethu. Mae Duw wedi rhoi cymaint i Ddafydd, ac y mae ef wedi dangos anniolchgarwch dybryd drwy ei weithred, wedi dirmygu gair yr Arglwydd. Ac mae'r hyn a wnaeth i Ureia'n cael ei gondemnio yn llymach na'r godineb. Ac y mae canlyniadau i hyn: (1) "ni thry'r cleddyf oddi wrth dy dŷ hyd byth" (dywed I Brenhinoedd ac I Cronicl mai oherwydd yr holl waed ar ei ddwylo na chafodd Dafydd godi'r deml); (2) "drwg o blith dy deulu dy hun" – anawsterau allanol a mewnol. Cafodd Dafydd helyntion di-rif ar faes y gad ac yn ei deulu. Heuodd Dafydd y gwynt, ac fe feda'r corwynt.

Cyffes

Yna daw cyffes Dafydd, a'i gydwybod wedi ei ddeffro! "Yr wyf wedi pechu yn erbyn Yahweh." Mae pob pechod yn erbyn ein gilydd yn bechod yn erbyn Duw. Didwylledd ddylai nodweddu cyffes o bechod, nid bod yn amleiriog. Cofiaf Dr Martyn Lloyd Jones yn dweud bod cyffesu pechodau yn Aberafan wedi mynd yn gystadleuaeth mewn adrodd hen droseddau!

Mae Nathan yn sicrhau Dafydd fod Yahweh wedi "troi heibio dy bechod; ni fyddi farw". "Ond", ac y mae gair cryfach y tro hwn yn 12.14: 'ephes – "Er hynny ("Nevertheless"), oherwydd iti lwyr ddiystyru'r Arglwydd yn y mater hwn, yn ddi-os bydd farw y bachgen a enir i ti." Mae'r Hebraeg yn dweud "diystyru gelynion Yahweh". Sut y byddent hwy yn gwybod? Ond y mae'r Beibl yn rhoi pwyslais cyson ar effaith ein hymddygiad ni ar y rhai y tu allan.

Kenneth Lintern

AT Y GOLYGYDD

Annwyl Olygydd

Gofynnwn yn garedig i ddarllenwyr Y Tyst sôn wrth bobl ifainc y gwyddant eu bod yn dod i Gaerfyrddin y tymor hwn i ddilyn cyrsiau addysg uwch y byddai Eglwys y Priordy'n falch iawn o'u croesawu i'w chymdeithas.

Mae'r Priordy, dan arweiniad y Parchedig Beti-Wyn James, yn eglwys fyw a brwdfrydig ac eang ei gweithgarwch. Mae pobl ifainc yn chwarae rhan flaenllaw a phwysig yn ei bywyd a'i gwaith.

Mae'r holl wybodaeth am oedfaon a gweithgareddau'r eglwys i'w cael ar ein Gwefan (sy'n cynnwys Papur Priordy ar ffurf ddigidol), Gweplyfr a Thrydar.

Mae croeso hefyd i weinidogion ac ysgrifenyddion eglwysi gyflwyno i ni enwau a chyfeiriadau'u pobl ifanc sy'n dod i Gaerfyrddin os ydynt yn dymuno. Byddwn ninnau wedyn yn ymdrechu i gysylltu â nhw a'u croesawu'n gynnes iawn i deulu'r Priordy. Cyfeiriad e-bost ein Gweinidog yw: *beti.wyn@icloud.com*

Yn gywir iawn,

R Alun Charles
Ysgrifennydd, 01267 236037
clem.charles@ btinternet.com

Derbyn Dafydd Wyn i'r Orsedd



Llongyfarchiadau mawr iawn i Dafydd Wyn ar gael ei dderbyn i'r Orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni. Mae'r gymuned a'r gymdeithas mae'n rhan ohoni'n rhan bwysig o fywyd **Dafydd Wyn**, Glanaman, a bu ei gyfraniad i'r gymuned honno'n fawr dros y blynyddoedd. Yn gyn-ddiacon Mryn Seion, Glanaman, cyn i'r capel gau, ac yn aelod bellach ym Methel Newydd, y Garnant. Yn un o sylfaenwyr y papur bro Glo Mân bron i ddeugain mlynedd yn ôl, bu'n golofnydd cyson yn y papur hwnnw dros y blynyddoedd. Ef oedd yn gyfrifol am gychwyn Cylch Darllen Llyfrau Cymraeg Llyfrgell Rhydaman, ac mae'n parhau i gyd-redeg y cynllun hwn hyd heddiw. Mae'n gynghorydd cymuned, a bu'n Faer Cwmaman ddwywaith dros y blynyddoedd. Mae'n fardd ac yn enillydd nifer o gadeiriau mewn eisteddfodau lleol.

Golygyddol

PRIS MEDALAU AUR RIO

Nôl yn nechrau'r ddegawd hon, gwawdiwyd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg am feirniadu'r modd y cafodd £30m., ei arallgyfeirio o elusennau yng Nghymru i helpu talu'r gost anferth o gynnal gemau Olympaidd Llundain 2012. Mae'n siŵr byddai'r gwatwarwyr hynny'n cyfeirio nawr at lwyddiant Team GB yn Rio fel cyfiawnhad dros wario'r ffortiwn a fuddsoddwyd yn natblygiad athletwyr ers hynny. Wrth reswm, mae'n weddus i ni gydnabod ac edmygu ymdrechion ac ymroddiad yr unigolion a roddodd y cyfan i mewn i'w camp ers blynyddoedd i gyrraedd y brig. Llongyfarchiadau a phob lwc iddyn nhw yn y dyfodol.

Dim cynnydd mewn diddordeb

Ond tra bod yr *elite* aeth i Rio eisoes yn edrych ymlaen at Tokyo 2020, stori arall yw hi ar lawr gwlad. Honnwyd y byddai gemau Llundain wedi hybu'r diddordeb mewn chwaraeon gan annog plant a phobl ifanc i ymdrechu tuag at fod yn athletwyr o fri. Uchelgais clodwiw, ond ni ddigwyddodd hynny. Bu gostyngiad mawr yn nifer y rhai sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, tra bod canolfannau hamdden, pyllau nofio a chyfleusterau chwaraeon eraill yn cau oherwydd toriadau llym ar wariant cyhoeddus. Yr unig eithriad yw seiclo, lle bu cynnydd anferthol yn nifer y rhai sy'n cystadlu, yn seiclo fel hamdden neu i'r gwaith. Mae buddsoddi mewn cyfleusterau seiclo – o lwybrau glan môr i'r Felodrom unigryw yng Nghaerfyrddin – o fudd i filiynau o bobl.

Alun Lenny

Nawdd hanesyddol ei faint

Ond faint o fudd ddaw o'r cannoedd o filiynau o bunnau cafodd ei wario ar hyfforddi'r *elite* aeth i Rio? Roedd pob medal - o ba bynnag liw - a enillwyd gan Team GB wedi costio £5m. ar gyfartaledd. Dywedodd Dave Kidd, prif ohebydd chwaraeon y Daily Mirror, "*It was the result of possibly the most ruthless professional state-sponsership programme of sporting excellence in history."* O ystyried hyn, byddai'n syndod pe na bai Prydain wedi bod mor llwyddiannus, meddai. A phwy dalodd am y llwyddiant? Wel, i raddau helaeth, arian y Loteri Genedlaethol - £250m. ohono. Ac o ble daw arian y Loteri? Yn ôl un arolwg, mae 67% o'r bobl sy'n prynu tocynnau loteri ar gyflogau isel, gyda gwariant uwch na'r cyfartaledd mewn ardaloedd tlawd fel Blaenau Gwent. Mae'r tlawd sy'n gwario o'u harian prin, yn y gobaith tenau o ennill ffortiwn i'w cymryd allan o dlodi, yn sybsideiddio'r athletwyr proffesiynol, cefnog. Mae nifer yn filiwnyddion, gydag Andy Murray yn werth £62m a Justin Rose £33m.

Llymder a Thlodi

Mae hyn yn digwydd ar adeg o lymder. Mae'n dorcalonnus bod 200,000 o blant Cymru'n byw mewn tlodi, heb hanfodion sylfaenol, fel dillad cynnes neu fwyd poeth, mewn cartrefi sydd yn oer neu'n llaith. Fel llywodraethwr ysgol gynradd mewn ardal ddifreintiedig, gallaf dystio i effaith y fath dlodi ar ddatblygiad plant bach. Mae rhai yn dod i'r ysgol yn bedair oed heb fedru siarad yn iawn. Peth diflas i mi, yn rhinwedd swyddogaeth arall fel cynghorydd sir, oedd apelio ar bobl Sir Gâr i gyfrannu mwy tuag at y banciau bwyd, am fod hi'n wyliau ysgol, a sawl plentyn bach yn mynd heb ddigon i'w fwyta. Yn yr unfed-ganrif-ar-hugain, onid yw hi'n gywilyddus bod miloedd o deuluoedd Cymru yn gorfod dibynnu ar fanciau bwyd?

Tynnu Sylw

Yng nghyfnod yr Eglwys Fore, roedd Cristnogion yn cael eu taflu i'r llewod er mwyn diddanu'r bobl. Roedd hynny'n tynnu sylw oddi wrth broblemau gwleidyddol, milwrol a chymdeithasol yr Ymerodraeth Rufeinig. Ac yn ein cyfnod ni, mae achlysuron fel y Gemau Olympaidd yn fodd i dynnu sylw'r cyhoedd i ffwrdd iddi wrth lymder ein cyflwr – a hynny ar draul y tlodion, i raddau helaeth – nid yn unig trwy'r Loteri, sy'n dreth ar y tlawd ym Mhrydain, ond hefyd trwy'r modd y cafodd miloedd o bobl dlawd eu troi allan o'u cartrefi yn Rio de Janeiro er mwyn codi'r Stadiwms Olympaidd.

Tybed beth fyddai'r Crist sydd a'i freichiau ar led yn y cerflun uwchben Rio yn dweud am hyn i gyd?

Alun Lenny

GOFALAETH BRO ALED

Llawenydd yw eich hysbysu o gyfarfod

ORDEINIO A SEFYDLU

DR RHODRI GLYN B.A. PhD

YN WEINIDOG I'R ARGLWYDD IESU

dydd Sadwrn, Medi 17eg

am 2:00 o'r gloch

yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan

Croeso cynnes i bawb

Cyffordd Llandudno - 15 Medi am 7.00

Bethania, Tymbl - 26 Medi am 7.00

Mae cynllun newydd Y Ffordd yn adnodd cyffrous, defnyddiol, ymarferol a hwyliog i helpu eich eglwys chi ar y daith unigryw gyda Duw.

Bydd yn para am bedair blynedd, gyda thema gwahanol bob blwyddyn:

- Ffyrdd drwy'r Beibl
- Y Ffordd y daethom
- Tystiolaeth Pobl y Ffordd
- Gofal Pobl y Ffordd

Dewch i wrando, holi a dysgu sut mae dilyn Y Ffordd.

Cyfarfod Sefydlu

Cynhelir cyfarfod sefydlu'r Parchedig Carwyn Siddall yn weinidog ar Eglwys yr Annibynwyr, Y Bala ac i groesawu'r Eglwys yn rhan o Ofalaeth Bro Llanuwchllyn a'r Cylch

Dydd Sadwrn, Hydref 8fed, 2016 am 2:30 o'r gloch

Yng Nghapel yr Annibynwyr, Y Bala.

Croeso cynnes i bawb

Can Mlwyddiant Eglwys y Tabernacl Porthcawl

Ar ddydd Sul Medi 18fed 2016 bydd y Tabernacl Porthcawl yn dathlu canmlwyddiant sefydlu'r eglwys.

Am 10.30 y.b. cynhelir Oedfa Gymun, a'r pregethwr gwadd yw'r Parchg Ddr Geraint Tudur, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr.

Yn dilyn yr oedfa bydd cyfle i gymdeithasu yn y Neuadd dros baned a lluniaeth ysgafn, cyn ymgynnull yn ôl yn y capel am 2.30.y.h. i barhau'r dathlu trwy gyfrwng Cymanfa Ganu.

Estynnwn wahoddiad cynnes i chi ymuno gyda ni yn ein dathliadau.

Ar ran yr eglwys
Parchg Rosan Saunders, Gweinidog
Tom Price, Ysgrifennydd.